# Mater y Mis – Mai 2024

Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales



Mis diwethaf, fe wnaethom ni ofyn i chi am eich teithiau i’r ysgol.

Dyma beth ddywedoch chi wrthym ni:

Ym mis Ebrill, llenwodd **<u>dros 2000</u>** ohonoch yr holiadur am deithio i’r ysgol



- Dywedodd 82% ohonoch eich bod yn teimlo'n ddiogel ar y ffordd i'r Ysgol



- Roedd rhai ohonoch yn meddwl bod gormod o draffig a bod ceir yn teithio'n rhy gyflym



- Dywedodd rhai ohonoch nad oedd lle diogel i groesi neu nad oedd ceir yn stopio i adael chi groesi’r ffordd



- Roedd rhai ohonoch yn poeni am gerdded ar eich pen eich hun



- Dywedodd llawer ohonoch eich bod wedi mwynhau edrych ar natur ar eich ffordd i'r Ysgol



- Roedd llawer ohonoch wedi mwynhau bod gyda'ch teulu ar y ffordd i'r ysgol. Dywedoch wrthym eich bod yn hoffi sgwrsio â'ch teulu



- Roedd rhai ohonoch yn hoffi gwrando ar y radio a chanu ar y ffordd i'r ysgol



Mae Mater y Mis Mai yn ymwneud ag **Amser chwarae.**

Cofiwch - Mae gennych chi i gyd yr hawl i ymlacio a chwarae.

Mater mis yma: Amser Chwarae




Linc i'r fideo – [Mater y Mis - Mai (youtube.com)](youtube.com)



1) Trafodwch fel pâr neu fel grŵp:

- Ydych chi'n mwynhau amser chwarae? Pam?
- Ydy amser chwarae yn bwysig? Pam?
- Ydych chi byth yn colli amser chwarae? Pam?
- Beth fyddai'n gwneud amser chwarae yn well?

Mae deunyddiau ategol ar y wefan i blant ag anghenion dysgu ychwanegol

2) Rhannwch eich syniadau gyda ni **wrth ddefnyddio cod QR yr holiadur neu'r ddolen**

(Gall pob person ifanc wneud hyn yn unigol neu gall athro ei wneud ar ran y dosbarth)

https://online1.snapsurveys.com/au0v9

- **Linc i'r holiadur - https://online1.snapsurveys.com/au0v9**



Ar ddiwedd yr holiadur, mae opsiwn i chi ddweud wrthym beth yw eich barn am Fater y Mis a sut y gallwn ei wella.



# Diolch!

Bydd Mater y Mis nesaf ar gael ar ein gwefan ar Ddydd Llun, Mehefin y 3ydd.

Oeddech chi'n gwybod fod gan Gomisiynydd Plant Cymru dîm o bobl sy'n gallu helpu plant sy'n teimlo nad ydynt yn cael eu hawliau?

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

🎥 Dyma 1 munud o fideo'n esbonio mwy i chi am y tîm:




Linc i'r fideo: [Beth i wneud os rwyt ti'n credu fod ti ddim yn derbyn dy hawliau (youtube.com)]